# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Cyngor Sir Powys

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Powys i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Powys 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn ac 1 yn rhannol.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Powys 6 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol, a methodd â chyflawni 2.

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Powys wedi cyflwyno adroddiad cynhwysfawr, sy'n dangos sut mae gwasanaethau llyfrgell ym Mhowys yn parhau i gydweithio â nifer o bartneriaid i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd o safon uchel. Er y bu gostyngiad yn nifer y defnyddwyr mewn rhai meysydd, mae perfformiad Powys yn y rhan fwyaf o feysydd yn parhau yn uwch na'r canolrif yng Nghymru, ac mae nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg gan blant wedi codi. O'i gymharu mae gwariant ar ddeunyddiau yn parhau i fod yn isel iawn, ond yn ôl pob golwg nid yw wedi effeithio ar allu Powys i ddarparu gwasanaethau mewn modd effeithiol, fel y dengys yr amrywiaeth o grwpiau a gweithgareddau i unigolion ledled Powys. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau a nodau strategol Llywodraeth Cymru. Mae pryderon o hyd ynghylch cynaliadwyedd y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd symud tuag at fodel canolfan gymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad yn y blynyddoedd i ddod.

- Gwelwyd gostyngiad bach yn nifer yr aelodau o lyfrgelloedd er 2017/18 a gellir priodoli hyn yn rhannol i waith glanhau data a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020. Mae aelodaeth fesul pen o'r boblogaeth yn is na'r canolrif yng Nghymru.
- Gwelwyd cynnydd o 8% mewn benthyciadau llyfrau plant er 2017/18 ac mae'r gwasanaeth wedi bod yn hyrwyddo'r maes hwn. Mae'r defnydd o e-adnoddau wedi codi ac mae'n parhau'n uchel, ac mae gwaith hyrwyddo yn y maes hwn yn un o gryfderau'r gwasanaeth llyfrgell
- Mae buddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg wedi gostwng er 2018/19, ond mae'n parhau 16% yn uwch na chyfanswm y gwariant yn 2017/18 ac mae'r targed (DA 10) yn cael ei gyflawni.
- Mae'r oriau agor blynyddol cyfanredol wedi'u cynnal yn 2019/20, a dim ond un awdurdod arall yng Nghymru sydd â chyfartaledd uwch fesul pen o'r boblogaeth.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i

awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

### 2.1 Hawliau craidd

Mae Powys yn cyflawni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac un yn rhannol, ond mae'n methu â chyflawni HG 12 gan nad oes strategaeth llyfrgell ar hyn o bryd. Cyflawnwyd HG 12 yn nwy flynedd gyntaf y fframwaith presennol, ond nid yw wedi'i chyflawni yn ystod 2019/20 gan fod y strategaeth i fod i gael ei diwygio, ac nid yw'r gwaith o lunio modelau cyflawni newydd wedi'i gwblhau. Mae HG 6, lle codir tâl am fenthyciadau rhwng llyfrgelloedd o awdurdodau eraill yng Nghymru (i adlewyrchu'r costau cysylltiedig gan nad oes cynllun benthyciadau rhwng llyfrgelloedd ar gyfer y sir) yn parhau i gael ei chyflawni'n rhannol. Mae gwelliannau wedi'u gwneud i HG 1, gan fod modd ymuno ar-lein erbyn hyn, ac nid oes angen prawf o gyfeiriad erbyn hyn.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith COVID-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Powys yn cyflawni 6 ohonynt yn llawn, yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac yn methu â chyflawni 2 ohonynt.

| Dangosydd Ansawdd | Cyflawni? | |
|---|---|---|
| DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol | | Cyflawni'n llawn |
| a) Cymorth TGCh | √ | |
| b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth | √ | |
| c) Cymorth e-lywodraeth | √ | |
| d) Datblygu darllenwyr | √ | |
| DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles | | Cyflawni'n llawn |
| i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau | √ | |
| ii) Cynllun Llyfrau Llesol | √ | |
| iii) Casgliad penodol i iechyd a lles | √ | |
| iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw | √ | |
| v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles | √ | |
| DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth | √ | Cyflawni'n llawn |
| DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol | | Heb ei gyflawni |
| Derbyniadau fesul pen y boblogaeth | X | |
| <u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen | X | |
| DA 10 – Adnoddau Cymraeg | | Cyflawni'n llawn |
| % y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg | √ | |
| <u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen | √ | |
| DA 11 – Mynediad ar-lein: | | Cyflawni'n llawn |
| a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd | √ | |
| ii) Darpariaeth Wi-Fi | √ | |
| DA 12 – Cyflenwi ceisiadau | | Heb ei gyflawni |
| a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod | X | |
| b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod | X | |
| DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau: | | Cyflawni'n rhannol |
| i) Staff fesul pen y boblogaeth | X | |
| ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth | X | |
| iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth | √ | |
| DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth | √ | Cyflawni'n llawn |

At ei gilydd, mae Powys wedi cynnal ei berfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith. Mae DA 12, a oedd yn cael ei gyflawni yn 2018/19, heb ei gyflawni yn 2019/20 gan fod y targedau wedi'u heffeithio gan Covid-19 ym mis Mawrth 2020.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Powys ei arolwg defnyddwyr sy'n oedolion ym mis Tachwedd 2018, a'i arolwg defnyddwyr sy'n blant ym mis Hydref 2019.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 85% | *17/19* | 60% | 90% | 97% |
| e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 88% | *10/19* | 41% | 85% | 99% |

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Powys bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Glanhau ac ailgylchu – menter ar y cyd i gasglu sbwriel. Mae Caru Cymru, Gwasanaeth Llyfrgell a Rheoli Gwastraff Powys wedi gweithio gyda'i gilydd i helpu Cadwch Gymru'n Daclus. Gellir benthyca pecynnau casglu sbwriel o'r llyfrgell. Mae hon yn ffordd o ddod â phobl at ei gilydd ac mae'n cynnig amrywiaeth o fuddion cymdeithasol, ynghyd â'r gwerth ychwanegol o gael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd lleol.
- Dysgu sy'n seiliedig ar gynhwysiant, amrywiaeth a chymunedau – manteision y llyfrgell i deulu sy'n newydd i Gymru. Mae staff llyfrgell wedi helpu teulu i wella eu sgiliau Saesneg, ynghyd â'u helpu i ddarganfod mwy am eu hardal leol. Roedd hyn yn hwb i'w hyder ac mae wedi eu helpu i wneud ffrindiau newydd.
- Iechyd a llesiant – manteision amrywiaeth o weithgareddau yn llyfrgell Ystradgynlais i'r gymuned. Mae nifer o grwpiau wedi cael eu sefydlu, gan gynnwys clwb garddio a grŵp chwarae rôl 'Daeargelloedd a Dreigiau'. Mae'r grwpiau hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar lesiant unigolion yn y gymuned, gan atal ynysigrwydd cymdeithasol ac annog pobl i ddod yn aelodau o'r llyfrgell.
- Prosiect Dementia – manteision menter lle mae storïau'n cael eu darllen yn uchel i grŵp o bobl hŷn. Pwysigrwydd dau aelod o'r gymuned sy'n chwarae rhan weithredol a gwerthfawr drwy ddod â mwynhad o storïau a barddoniaeth i bobl sydd â dementia, a hefyd i bobl sy'n unig ac ynysig.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y mannau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Powys ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

| Dangosydd perfformiad | | *Safle* | Isaf | Canolrif | Uchaf | *2018/19* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 – Gwneud gwahaniaeth | | | | | | *[Fframwaith 6]* |
| a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 68% | *12/18* | 25% | 75% | 94% | *dd/b* |
| c) iechyd a lles | 57% | *15/19* | 38% | 69% | 96% | *dd/b* |
| d) lle diogel a chroesawgar | 97% | *=7/19* | 90% | 96% | 100% | *dd/b* |
| DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | | *[Fframwaith 6]* |
| a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau | 81% | *17/18* | 78% | 91% | 99% | *dd/b* |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da' | 95% | *16/18* | 88% | 97% | 100% | *dd/b* |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da' | 78% | *=13/17* | 66% | 86% | 99% | *dd/b* |
| d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol; | 94% | *15/18* | 85% | 96% | 100% | *dd/b* |
| e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau | 9.4 | *1/15* | 8.0 | 9.2 | 10.0 | *dd/b* |
| DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell[1] | | | | | | |
| a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth | 4,007* | *11/22* | 2429 | 3987 | 6874 | *4,042* |
| b) rhith-ymweliadau fesul pen | 1,607 | *3/22* | 239 | 913 | 2131 | *1,367* |
| c) benthycwyr gweithredol fesul pen | 152 | *9/22* | 78 | 145 | 244 | *165* |
| DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen[2] | 614 | *13/22* | 311 | 680 | 1468 | *780* |
| DA 11 – Mynediad ar-lein | | | | | | |
| b) cyfrifiaduron fesul 10,000 | 10 | *6/22* | 4 | 9 | 14 | *11* |
| c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd | 17% | *=20/22* | 14% | 30% | 64% | *17%* |
| DA 14 – Gwariant gweithredol | | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant fesul pen | £10,960 | *12/22* | £7,260 | £12,448 | £23,333 | *£13,570* |
| b) % ar staff | 59% | *=11/22* | 48% | 61% | 76% | *58%* |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 9% | *=18/22* | 5% | 13% | 22% | *8%* |
| % ar offer ac adeiladau | 2% | *=17/22* | 0% | 8% | 28% | *2%* |
| % ar gostau gweithredol eraill | 29% | *5/22* | 1% | 18% | 35% | *32%* |
| c) gwariant cyfalaf fesul pen | £1,106 | *7/22* | £0 | 1,567 | £13,027 | *£2,095* |
| DA 16 – Oriau agor[3] | | | | | | |
| (iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny | 0.01% | *17/22* | 0.00% | 0.23% | 3.96% | *0.17%* |
| b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd | 5.41% | *22/22* | 0.00% | 1.07% | 5.41% | *2.03%* |

*[1] rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; [2] fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; [3] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).*

## 3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

### 3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)[i]

Cynhaliodd Powys ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Tachwedd 2018, a chynhaliodd ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n bobl ifanc ym mis Hydref 2019. Mae pob man

gwasanaeth sefydlog yn parhau i ddarparu cefnogaeth lawn ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda ar gyfer iechyd a llesiant, â phrosiectau sy'n cael eu hariannu â grant i gefnogi pobl sy'n byw â dementia ac i helpu pobl i reoli eu pwysedd gwaed, yn fwyaf arbennig.

## 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)[ii]

Mae Powys wedi parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad i fannau gwasanaeth drwy gydol y fframwaith. Mae gan Bowys 16 llyfrgell sydd ar agor 10+ awr yr wythnos ac ni fu unrhyw newidiadau er 2017/18. Priodolir gostyngiad mewn ymweliadau â safleoedd llyfrgell, benthycwyr gweithredol a benthyciadau oedolion i effaith sylweddol Covid-19 yn niwedd Chwefror a Mawrth 2020. Er hyn, mae benthyciadau llyfrau oedolion yn parhau'n gymharol gryf. Gwelwyd gostyngiad bach yn nifer yr aelodau o lyfrgelloedd er 2017/18 a gellir priodoli hyn yn bennaf i waith glanhau data a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020. Mae aelodau fesul pen o'r boblogaeth yn is na'r canolrif yng Nghymru. Gwelwyd cynnydd o 8% mewn benthyciadau llyfrau plant er 2017/18 ac mae'r gwasanaeth wedi bod yn hyrwyddo'r maes hwn. Mae defnydd o'r wefan hefyd wedi cynyddu, ynghyd â nifer y lawrlwythiadau electronig. Y cyfartaledd lawrlwythiadau fesul pen o'r boblogaeth yw'r uchaf ond un yng Nghymru, ac mae wedi cynyddu 130% er 2017/18. Mae hyn yn un o gryfderau'r gwasanaeth.

## 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)[iii]

Yn gyffredinol, mae'r gyllideb ddeunyddiau wedi'i chynnal er 2018/19, ac mae'r gyfran o'r gyllideb sy'n cael ei gwario ar ddeunyddiau'n parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru. Mae'r targedau caffael (DA 9) yn parhau heb eu cyflawni, fel dau ar bymtheg o wasanaethau eraill yng Nghymru. Mae buddsoddiad mewn adnoddau Cymraeg wedi gostwng er 2018/19, ond mae'n parhau 16% yn uwch na chyfanswm y gwariant yn 2017/18 ac mae'r targed (DA 10) yn cael ei gyflawni. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron personol a'r lefelau defnyddio wedi aros yr un fath at ei gilydd, fel mewn awdurdodau eraill. Nid yw'r targed cyflenwi ceisiadau (DA 12) wedi'i gyflawni, ac mae'r gwasanaeth yn priodoli hyn i effaith Covid-19.

## 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)[iv]

Yn gyffredinol, mae nifer y staff wedi gostwng yn 2019/20 a nodir bod hyn o ganlyniad i ad-drefnu mewnol, gyda staff llyfrgell yn llyfrgell y Trallwng bellach yn rhan o strwythur staffio'r gwasanaeth amgueddfeydd fel rhan o wasanaeth amgueddfa a llyfrgell unedig. Nid yw'r targed cyffredinol ar gyfer staff fesul pen o'r boblogaeth yn cael ei gyflawni, ac mae'n is na'r canolrif. Mae cyfanswm y staff y nodwyd bod ganddynt gymwysterau cydnabyddedig hefyd wedi gostwng o ganlyniad i drosglwyddiad mewnol ac ymddeoliad un aelod cymwysedig o'r staff. Nid yw'r targed ar gyfer staff cymwysedig yn cael ei fodloni mwyach. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn bodoli.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng ychydig er 2018/19, ac mae wedi gostwng 30% er 2017/18. Mae gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn is na'r canolrif. Mae'r oriau agor blynyddol cyfanredol wedi aros yr un fath, a dim ond un awdurdod arall yng

Nghymru sydd â chyfartaledd uwch fesul pen o'r boblogaeth. Gwelwyd cynnydd bach yn nifer yr arosfannau llyfrgell deithiol a'r gwasanaethau danfon i'r cartref a fethwyd.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Mae'r gwasanaeth yn adrodd am ei gyfraniad i "Ffyniant i bawb" a "Symud Cymru Ymlaen". Mae hyn yn cynnwys ffyniannus a diogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol a dysgu ac unedig a chysylltiedig. Mae'r gwasanaeth yn nodi pwysigrwydd grwpiau canu dementia sy'n pontio'r cenedlaethau i aelodau, ynghyd â thaleb nofio am ddim i'r teulu i bob plentyn sy'n cwblhau her ddarllen yr haf, gan effeithio'n llwyddiannus ar iechyd a llesiant y gymuned. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig ystod o weithgareddau dysgu, yn amrywio o sesiynau ymchwil ac astudiaethau lleol i glwb codio yn y Gaer. Mae Powys yn llwyddo i fod yn gydnaws ag amrywiaeth eang o nodau strategol.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, mae Powys yn tynnu sylw at effaith llymder ar y gwasanaeth, yn enwedig o ganlyniad i Covid-19. Mae'r Cyngor yn ystyried modelau hybiau cymunedol ar gyfer cyflawni gwasanaeth ehangach ac mae bwriad i lyfrgelloedd ym Mhowys fod wrth graidd unrhyw ddatblygiad. Mae ymrwymiad parhaus i weithio â phartneriaid amrywiol o hyd. Bydd ailddatblygu'r strategaeth llyfrgell bresennol yn hanfodol er mwyn darparu cyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Fel pob gwasanaeth yng Nghymru, bydd angen ystyried sut i ddarparu gwasanaethau llyfrgell traddodiadol mewn amgylchedd ar-lein, tra'n parhau i ddiwallu anghenion aelodau o'r gymuned. Mae'r gwasanaeth yn parhau i archwilio ffrydiau incwm newydd, o ganlyniad i heriau ariannol parhaus.

## 6 Casgliad

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Powys wedi cyflwyno adroddiad cynhwysfawr, sy'n dangos sut mae gwasanaethau llyfrgell ym Mhowys yn parhau i gydweithio â nifer o bartneriaid i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd o safon uchel. Er y bu gostyngiad yn nifer y defnyddwyr mewn rhai meysydd, mae perfformiad Powys yn y rhan fwyaf o feysydd yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif yng Nghymru, ac mae nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg gan blant wedi codi. O'i gymharu mae gwariant ar ddeunyddiau yn parhau i fod yn isel iawn, ond yn ôl pob golwg nid yw wedi effeithio ar allu Powys i ddarparu gwasanaethau mewn modd effeithiol, fel y dengys yr amrywiaeth o grwpiau a gweithgareddau i unigolion ledled Powys. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni yn erbyn blaenoriaethau a nodau strategol Llywodraeth Cymru. Mae pryderon o hyd ynghylch cynaliadwyedd y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd symud tuag at fodel canolfan gymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad yn y blynyddoedd i ddod.

---

[i] *Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.*

[ii] *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.*

[iii] *Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.*

[iv] *Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.*